# CYNGOR CYMUNED LLANWINIO COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Llanwinio nos Fercher y 7fed o Fai 2025 am 8.40pm yn Neuadd Llanwinio.

**PRESENNOL**: Cynghowyr Sarah Pask (Cadeirydd), Christopher Smoothy, Iori Saer, Dorian Lewis, Huw James, Wyn Evans ac Elgan Williams

**YMDDIHEURIADAU**: Y Cynghorydd Sir Jean Lewis

**CYMHERWYD Y COFNODION GAN Y CLERC**: Liza Jones

**2: COFNODION**: Roedd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Fawrth 2025 wedi ei dosbarthu cyn y cyfarfod, fe'u derbyniwyd a'u cofnodi fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDD:**
Dim

**4: MATERION YN CODI:**
Roedd y Cynghorydd Sir Jean Lewis wedi sicrhau cyfarfod safle parthed y pryderon am y man casglu disgyblion ysgol yn Passby dydd Gwener. Ond nodwyd fod y cwmni bysiau wedi newid ei polisi ac ei bod yn awr yn casglu disgyblion o ben heol eu caretfi ac felly nid oedd problem yn Passby bellach.
Roedd yr arwyddion a oedd wedi cael eu difrodi wedi eu atgyweirio ac y bin halen newydd ger Blaendyffryn wedi cyrraedd.
Roedd y fainc Newydd o Cadwch Cymru'n Daclus wedi ei cyrraedd y parc a diolchwyd i Elgan Williams am gymryd y fainc.
Roedd y twll yn yr heol ger Passby wedi ei atgyweirio ond nid oedd yr un yn Blaenwaun.

**5: GOHEBIAETH:**

**A** – Diweddarwyd y Cynghorwyr ar gyfleoedd hyfforddiant am y misoedd i ddod.
**B** – Rhoddwyd gwybodaeth am y Act Terfysgoedd ( Diogelu Safle) 2025.
**C** – Roedd Banc Lloyds yn codi tâl o £4.25 y mis am y cyfrif banc. Roedd y clerc wedi ymchwilio i mewn i banciau eraill ond yn dilyn trafodaeth cytunwyd i aros gyda Lloyds.
**CH** – Roedd llythyron dilch wedi dod wrth Y Cardi Bach & Eisteddfod Genedlaethol.
**D** – Roedd y clerc wedi cwblhau y ffurflen TAW am ad-daliad o £6,936.14. Roedd wedi ei gymeradwyo ac roedd yr ad-daliad wedi cael ei dderbyn.
**DD** – Roedd y clerc wedi cysylltu gyda CaTHEM nifer o weithiau ermwyn medru gwneud y gyflogaeth ond dal heb dderbyn y wybodaeth angenrheidiol felly byddai angen i'r cyflog cael ei ôl-dalu pan fyddai popeth wedi cael ei ddatrys. Roedd y clerc wedi derbyn côd hysbys P6.
**E** – Hysbyswyd y clerc fod coeden wedi cwympo ac wedi'i ddal dan pont Cross Mill, Heol Llanboidy, Meidrim gan achosi i'r bont godi. Roedd y clerc wedi adrodd y broblem i Cyngor Sir Caerfyrddin.

**6: DERBYNIADAU:**
Llôg - £5.42
Praesept - £2000.00
H James – Rhent - £488.40
C Robinson – Rhent - £375.60
G James – Rhent - £1042.80
CaThEM – Ad-daliad TAW - £6936.14

**7: BILIAU:**
Banc Lloyds – Costau bancio - £4.25
ICO – Aelodaeth - £47.00
Roedd y ddau uchod wedi cael eu talu trwy d/u.
Vision ICT – Cynnal y wefan 2025-26 - £324.00
CSC – Goleuadau stryd - £933.61
Un Llais Cymru – Hyfforddiant - £40.00
Rosemarie Davies – Archwilydd mewnol - £67.50
Archwilwyr Cymru – Archwiliad 22-23 - £275.00
Clear Councils – Yswiriant - £1026.51
Charlie Jackson – strimio parc - £25.00
Awdurdodwyd i'r anfonebau cael eu talu drwy trosglwyddiad banc.

**8: CYFRIFON BLYNYDDOL A ARCHWILWYR CYMRU**
Roedd y cyfrifon blynyddol wdi cael ei archwilio gan yr archwilydd mewnol annibynol ac wedi ei cael yn gywir. Trafodwyd y cyfrifon ac fe gytunwyd iddynt cael ei cyflwyno i Archwilwyr Cymru. Arwyddodd y Cadeirydd ac y clerc y cyfrifon ac yr adroddiad blynyddol.

**9: ADRODDIAD ARIANNOL:**

| | |
|---|---|
| Cyfrif Busnes | £11,399.96 |
| Cyfrif Trysorydd | £6,594.64 |
| **Cyfanswm o** | **£17,994.60** |

**13: CYNLLUNIO:** Dim

**14: Unrhyw fater arall:**
Roedd y clerc wedi sylwi fod yr arwydd ar y parc yn Blaenwaun yn anerllyniadwy. Cytunwyd i ddod o hyd i eiriad ar gyfer arwydd newydd erbyn y cyfarfod nesaf.
Roedd y ddau fin halen ger Fronfelin a Fferm Lion wedi torri ac angen eu adnewyddu.
Adroddwyd tyllau ar yr heol gyferbyn Rhydgoch, ochr yr heol ger Rhydrhydharri a sianel wedi cwympo ger yr ail bynaglo ar y ffordd mewn i Blaenwaun.
Roedd Rebecca Pugh wedi holi a byddai yn medru mynd ar sied a oedd wedi pydru oddi ar y cae chaware. Cytunwyd ar hyn ond byddai angen gwacau y sied yn gyntaf. Byddai angen caban newydd i ddal yr offer a cytunwyd i edrych mewn i 'container'.
Gwahoddwyd Ross Gallie I'r cyfarfod nesaf ermwyn gtrafod dyfodol y Neuadd.
**Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fercher yr 2ail o Orffennaf 2025 am 8:00pm yn Neuadd Gymunedol Llanwinio.**